

ADNODDAU ADDOLI

- **Cewch oedfa trwy ddarllediad ar wefan www.youtube.com am 10.30 bob bore Sul.** Mae'r cyswllt i'ch cyfeirio i'r dudalen briodol yn ymddangos ar dudalen flaen gwefan www.eglwysibroaled.com (Os na allwch ymuno â ni bryd hynny, mae modd i chi wrando unrhyw amser wedi i'r darllediad ddod i ben.)
- **Mae DVD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwyllo a gwrandao ar recordiad o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael DVD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae CD ar gael i'r rhai sy'n dymuno gwrandao ar recordiad sain o'r gwasanaeth.** Os hoffech gael CD, rhowch wybod i Mair.
- **Mae taflen o'r gwasanaeth ar gael i chi ei ddarllen.** Os hoffech dderbyn copi papur o'r gwasanaeth, rhowch wybod i Mair. Cofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy o faint.
- **Gwasanaeth ffôn rhad ac am ddim.** Gallwch wrando unrhyw bryd ar oedfa gyfan sydd wedi'i recordio gan Eglwys Bresbyteriaidd Cymru trwy ffonio 02920 101564, ac yna pwyso '1' i gael y gwasanaeth Cymraeg. Bydd y cynnwys yn cael ei newid unwaith yr wythnos, fel arfer ar ddydd Iau.

ADNODDAU ERAILL

- **Ar gyfer yr oedolion, mae taflenni cwestiwn ac ateb ar gael ar ebost neu ar bapur.** Cysylltwch â Mair os hoffech gael copi (ar bapur neu ar ebost) a chofiwch nodi os ydych yn dymuno print mwy.

Cewch adnoddau eraill ar wefan www.gair.cymru neu hwyrach y bydd gwefan www.holi-cymru.org o ddiddordeb i chi.

SYLWER

Cyhoeddir y rhifyn nesaf o Llais Bro Aled ar Fedi'r 6^{ed} (unrhyw gyhoeddiadau i'w hanfon erbyn Medi 2^{il}, os gwelwch yn dda). **Os cyfyd unrhyw faterion bugeiliol dros yr haf, plis cysylltwch â Mair yn ystod pythefnos cyntaf mis Awst, ac hefo Rhodri yn ystod y pythefnos olaf.**

beibl.net i bobl ifanc

Cofiwch, os ydych yn dymuno archebu copi o 'beibl.net i bobl ifanc' am y pris gostyngol o £15, cysylltwch â Mair **erbyn Awst 26ain**, os gwelwch yn dda. (Mwy o fanylion yn y rhifyn diwethaf o Llais Bro Aled.)

Llais Bro Aled



Dydd Sul, 26 Gorffennaf 2020

eglwysibroaled.com

rhaglendorcas.com

llanw.org

Annwyl bawb,

Dyma'r Llais Bro Aled olaf cyn mis Medi, ac felly mae'n gyfle i mi ddymuno'n dda i chi dros yr wythnosau nesaf, ac egluro'n fyr yr hyn sy'n debygol o ddigwydd i ni fel gofalaeth. Dwi'n siŵr bod teithio trwy anialwch yn brofiad digon annymunol, er nad wyf erioed wedi gwneud hynny fy hun. Ond os trowch chi at Exodus 13:17-22, fe welwch bobl Dduw mewn dryswch. Maent wedi cael eu rhyddhau o gaethiwed yr Aifft, ac wedi'i hachub gan Dduw, ond yn awr, anialwch sydd o'u blaenau. Nid dyma'r ffordd yr oeddent wedi'i dychmygu, ac ar sawl achlysur mae nifer yn mynegi hiraeth am yr hyn yr oeddent yn gyfarwydd ag ef yn yr Aifft! (Exodus 14:12)

Ond serch yr ofnau a'r ansicrwydd, mae'r Arglwydd ar waith. O ddydd i ddydd, mae Duw yn dangos Ei bresenoldeb a'i arweiniad i'w bobl trwy'r golofn o niwl a cholofn o dân. Doedd yr Israeliaid ddim yn gwybod lle'r oeddynt yn mynd o ddydd i ddydd, ac felly roedd yn rhaid iddynt ymddiried yng ngofal ac arweiniad Duw ar eu cyfer. Ac rydym ninnau mewn sefyllfa debyg gan na ŵyr neb ohonom am ba hyd y bydd yr amgylchiadau argyfyngus presennol yn parhau. Ond gallwn wynebu hyd yn oed y cyfnod hwn yn hyderus na fydd Iesu byth yn gadael ei ddisgyblion (Mathew 28:20), ac y bydd Duw yn ein harwain trwy Ei Air a'i Ysbryd. Ac yn fwy na hynny hyd yn oed, mae'r saint yn gwybod fod diwedd y daith yn sicr gan fod Oen Duw wedi cymryd ymaith bechod y byd ar y Groes, ac fel y dywed Iesu yn Ioan 6:40,

"Oherwydd ewyllys fy Nhad yw hyn: fod pob un sy'n gweld y Mab ac yn credu ynddo i gael bywyd tragwyddol. A byddaf fi'n ei atgyfodi yn y dydd olaf."

Yn ymarferol felly, dros fis Awst mae'n patrwm am aros yr un fath. Byddwn yn parhau i ddarlledu a dosbarthu gwasanaethau yn yr un modd ag yr ydym wedi ei wneud trwy gydol y cyfnod clo (ond gyda phregethwyr gwahanol). Yn ychwanegol, byddaf fi a Mair yn cymryd mymryn o seibiant yn ystod mis Awst, felly os fydddech mor garedig â chysylltu gydag unrhyw anghenion bugeiliol hefo Mair yn ystod pythefnos cyntaf mis Awst, a minnau yn ystod y pythefnos olaf, byddem yn ddiolchgar iawn. Ac er mwyn i ni allu paratoi ar gyfer mis Medi, byddem yn gwerthfawrogi gwybod eich barn ar yr hyn yr hoffech ei weld fel cam nesaf gan fod gennym hawl bellach, gyda chyfyngiadau, i ail-agor addoldai.

Wrth i ni ystyried a thrafod gyda'n blaenoriaid a'n diaconiaid lleol, rhaid cydnabod y bydd unrhyw wasanaeth mewn capeli yn edrych yn wahanol iawn i'r arfer. Dyma'r amodau:

- Asesiad risg angen ei gwblhau cyn defnyddio adeilad neu gynnal gwasanaeth awyr agored (cyfyngiad o 30 person)
- Pellter o 2m rhwng pob unigolyn neu aelwyd
- Stiwardiaid i sicrhau ymbellhau ac i roi arweiniad ynglŷn â rheolau yn y capel
- Cyfarpar glanhau dwylo neu sebon diheintio wrth fynedfeydd
- Dim hawl i ganu na chyd-adrodd fel cynulleidfa
- Angen rota mynychwyr a chofnodi pwy fydd yn dod i bob gwasanaeth
- (Posib) Sgrin perspex o flaen yr un sy'n arwain y gwasanaeth
- (Posib) Gofyn i fynychwyr wisgo mygydau

Felly, byddem yn ddiolchgar petai modd i chi nodi ar y papur amgaeëdig (neu ar ebost) a fydded chi'n gyfforddus yn ymgynnull mewn capel i addoli (dan yr amodau yr wyf wedi eu crybwyll) neu fyddai'n well gennych chi barhau gyda'r trefniadau addoliad presennol o fis Medi ymlaen am gyfnod eto. Does dim rheidrwydd arnom i agor unrhyw gapel, a chofiwch nad ydym yn annog neb i ddod os ydych yn teimlo'n anghyfforddus wrth ystyried hynny. Mae gennym ddarpariaeth unai trwy'r we neu gyfryngau eraill i sicrhau nad oes angen i neb gollu allan ar wrando a myfyrio ar Air Duw er gwaethaf yr haint. Byddwn yn parhau i ddarlledu ar y we ac i greu copiâu ar DVDs, CDs a phapur, gan ein bod yn ymwybodol y bydd nifer yn aros gartref er diogelwch.

Hefyd, os oes gennych awgrym amgen o'r hyn y gallwn ei wneud er mwyn dod â'r Gair yn fyw i chi, rydym yn barod i ystyried ffyrdd eraill o addoli a chenhadu. Bydd mwy o ganllawiau pendant yn cael eu cyhoeddi gan yr Eglwys Bresbyteraidd ddechrau'r wythnos nesaf, a bydd y rhain yn cael eu rhannu gyda'r blaenoriaid cyn gynted ag y bo modd.

Rhodri

Medalau Gee

Mae pwyllgor y Cyngor Ysgolion Sul wedi penderfynu gohirio cyflwyno'r Medalau Gee am eleni tan y flwyddyn nesaf. Felly, fe fydd y cyfle i enwebu ar gyfer y seremoni nesaf yn agored tan ddiwedd Mehefin 2021. Bydd yr enwau sydd eisoes mewn llaw yn sefyll, a byddant yn cysylltu â'r eglwysi i nodi hynny, gan esbonio yr un pryd, os oes rhywun sydd wedi ei enwebu mewn oed mawr neu'n fregus, y byddai modd i'n gweinidog gyflwyno'r Fedal yn lleol ar unrhyw adeg.

Cydymdeimlad a Chofion

Oherwydd y Ddeddf Gwarchod Data, dim ond y rhai sydd wedi rhoi caniatâd i ni gyfeirio atynt a nodir yma. Cysylltwch â Mair neu ysgrifennydd eich eglwys os ydych angen ffurflen ganiatâd arall, neu os byddwch, unrhyw bryd, yn dymuno newid y caniatâd a roddwyd gennych.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Trebor Roberts (Llansannan) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei frawd, Vaughan; ac â Beryl Evans (Cefn Meiriadog) a'r teulu yn dilyn marwolaeth ei chwaer, Rhiannon. Cofiw'n amdanoch yn ein gweddïau ac fe'ch cyflwynwn, ynghyd â'ch teuluoedd ac eraill o'n plith sydd wedi colli perthnasau yn ddiweddar, i ofal yr Arglwydd gan hyderu y byddwch yn profi nerth a chynhaliad Duw ei hun yn ddigon y dyddiau hyn.

Anfonwn ein cofion cynhesaf at Ifor Lloyd (Llanfair) fu yn yr ysbyty yr wythnos ddiwethaf. Da deall fod Ifor, a hefyd David Jones (Henllan), bellach wedi cael dod adref o'r ysbyty. Diolchwn am y gofal gawsoch ill dau, a chofiw'n amdanoch yn ein gweddïau gan hyderu y byddwch yn parhau i gryfhau ac i adnabod gofal Duw yn gwarchod drosoch dros y dyddiau a'r wythnosau nesaf hyn.

Mae eraill sydd heb fod cystal eu hiechyd ac eraill yn dal i wella yn dilyn cyfnod o salwch. Parhawn i gofio amdanoch chithau ac am bawb sy'n galaru am anwyliaid.

Anfonwn ein cofion hefyd at ein ffrindiau sydd mewn cartrefi gofal – Mrs Mair Williams (Llansannan); Mrs Gwenllian Jones a Mrs Gwyneth Griffiths (Henllan). Rydym yn eich cyflwyno chithau hefyd i ofal yr Arglwydd ac yn gweddïo eich bod yn profi gofal a grym ein gweddïau drosoch.

Gweddïwn y bydd y gweddill ohonoch yn cadw'n iach ac yn ddiogel dros gyfnod yr haf a thu hwnt i hynny, ac y daw cyfle i'ch gweld cyn hir.

GAIR I'CH ATGOFFA:

Yn ogystal ag mewn sefyllfa o farwolaeth un o'n haelodau, byddem yn gwerthfawrogi petaech yn gadael i ni, neu un o'r blaenoriaid neu'r diaconiaid, wybod os bydd aelod yn yr ysbyty; mewn profedigaeth (wedi colli rhiant, brawd, chwaer neu blentyn); yn dathlu pen-blwydd arbennig (80/90/100); pen-blwydd priodas arbennig (50/60/70); wedi dyweddïo; priodi; neu ddod yn riant. Diolch yn fawr.

Manylion Cyswllt

Rhodri – 📧 rhodri@eglwysibroaled.com 📞 01745 870522 📱 07814 660291

Mair – 📧 mair@eglwysibroaled.com 📞 01745 870632 📱 07900 627536

(Mair Owen, Bryn Goleu, Llansannan, Dinbych LL16 5LF)